# LLYWODRAETH CYMRU

# Datganiad Gwrandawiad Archwiliad

## Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd
## Gwynedd a Môn

## Sesiwn Gwrandawiad 7: Mwynau a Gwastraff

## 14th Medi 2016

**3. A yw'r Cynllun yn sicrhau y bydd y Siroedd yn cyfrannu'n briodol at fodloni'r galw rhanbarthol am fwynau yn ystod cyfnod y Cynllun?**

Mae Polisi Cenedlaethol yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod cynllunio mwynau yng Nghymru gyfrannu'n briodol at ddiwallu'r angen am fwynau ar lefel leol, rhanbarthol a'r DU, gan ddibynnu ar yr adnoddau sydd ar gael yn yr ardal (PCC, paragraff 14.2.2). Yn y Gogledd, Gweithgor Agregau Rhanbarthol Gogledd Cymru (NWRAWO) sy'n monitro ac yn asesu'r cyflenwad o agregau ac mae gofyn iddo baratoi ac adolygu Datganiad Technegol Rhanbarthol (Mwynau TAN1: Agregau, paragraff 50). Cyhoeddodd NWRAWP yr Adolygiad 1af (Awst 2014) o'r Datganiad Technegol Rhanbarthol (RTS) sy'n cynghori ar yr agregau y dylai'r rhanbarth eu darparu i ddiwallu'r angen am agregau tan 2036 ac ar rannu'r galw rhwng yr awdurdodau cynllunio mwynau.

Mae'r Adolygiad 1af o'r RTS wedi'i gymeradwyo gan Ynys Môn a Gwynedd a Llywodraeth Cymru (gweler Llythyr Egluro'r Gweinidog, CL-05-14, Medi 2014).

<u>Tywod a Gro</u>
Mae'r Adolygiad 1af o'r RTS yn datgan mai 44 miliwn o dunelli yw cyfran Gwynedd ac Ynys Môn o'r tywod a graean o'r tir y mae disgwyl iddynt eu darparu dros gyfnod o 22 o flynyddoedd (Ynys Môn 0, Gwynedd 4.4mt), sef 0.2mt y flwyddyn. O ran y cyflenwadau sy'n bod, ceir cyfanswm o 0.7mt o'r rheini, i gyd yng Ngwynedd. Mae hynny'n golygu bod diffyg o 3.7mt dros gyfnod y cynllun (Rhagfyr 2010) - 15 mlynedd ynghyd â 7 mlynedd ychwanegol i ddangos y banc tir sydd ei angen dros gyfnod llawn y cynllun (7 mlynedd).

Mae Papur Testun 11A: Mwynau (para 7.29) yn dweud y gellir defnyddio 0.7mt o dywod a gro o'r cronfeydd segur a'r cronfeydd a ganiateir a'u gwrthbwyso yn erbyn y diffyg. **Byddai angen cwrdd â'r diffyg o 3.0mt trwy ddyraniadau newydd yn y CDLl.**

Mae'r PCC (para 14.7.10) yn datgan y dylai polisïau a chynigion mewn cynlluniau datblygu ddatgan yn glir lle dylai mwynau gael eu codi neu lle byddent fwyaf tebygol o gael eu codi. Gall safle fod yn 'Safle Penodol', 'Safle a Ffefrir', 'Ardal Chwilio' ac 'Ardal Arall'. Mae hyn yn ei hanfod yn hierarchiaeth a'r safleoedd penodol sydd fwyaf sicr eu cyflenwad.

Mae Polisi MWYN2 (fel y'i diwygiwyd) y cynllun yn ceisio datrys y diffyg trwy glustnodi 'Ardaloedd a Ffefrir' sydd â photensial i ryddhau gwerth 20.43mt o dywod a gro (Papur Testun 11A: Mwynau, tudalen 36). Mae hyn yn cydnabod ansicrwydd y sefyllfa, yn rhoi dewis i'r diwydiant mwynau a bydd hefyd yn annog defnyddio cyflenwadau lleol gan dorri ar bellteroedd cludo.

**Mae Llywodraeth Cymru'n credu bod Polisi MWYN3 yn ddigonol i fodloni'r polisi cenedlaethol ar ddarparu tywod a gro ac i gynnal banc tir gydol cyfnod y cynllun, cyn belled â bod diwydiant yn fodlon â hynny.** Byddai'n dda cael mwy o sicrwydd ynghylch clustnodi cronfeydd i ddatrys y diffyg o 3.0mt; ond ymddengys bod digon o gyflenwad dros ben yn yr ardaloedd chwilio a ffefrir i ddatrys y diffyg.

<u>Cerrig Mâl</u>
Yn ôl Adolygiad 1af yr RTS, mae disgwyl i Wynedd ac Ynys Môn ddarparu 13.75 miliwn o dunelli o gerrig mâl dros gyfnod o 25 o flynyddoedd (Ynys Môn 7mt, Gwynedd 6.75mt), sef 0.28mt a 0.27mt (cyfanswm 0.55mt) y flwyddyn. O ran y cyflenwadau sy'n bod, ceir cyfanswm o 14.2mt (Ynys Môn 5.69mt a Gwynedd 8.51mt) (Rhagfyr 2010). **Ceir gwarged felly o 0.45mt o agregau cerrig mâl dros gyfnod y cynllun.**
0.7mt o'r rheini, i gyd yng Ngwynedd.

4. **A fydd y Cynllun yn darparu banc tir 7 mlynedd o dywod a gro a banc tir 10 mlynedd o agregau cerrig mâl yn ystod cyfnod y Cynllun?**

Gweler yr ymateb i gwestiwn 3 uchod ynghylch tywod a gro.

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod yr angen am fanc tir o 10 mlynedd o agregau cerrig mâl dros gyfnod y cynllun wedi'i fodloni.

5. **A yw'r Cynllun yn ddigon cefnogol o gynigion ar gyfer echdynnu mwynau ac yn ddigon amddiffynnol o'r ardaloedd diogelu mwynau?**

Dywed y PCC (paragraff 14.2.1) bod angen gwarchod mynediad at fwynau. Aiff paragraff 14.7.3 yn ei flaen i ddweud y **dylid dangos yr ardaloedd gwarchodedig ar y map cynigion** ac y dylai polisïau warchod adnoddau mwynau posibl rhag mathau eraill o ddatblygu a allai eu dwyn neu ei gwneud yn anodd eu codi.

Byddai'n dda pe eglurir polisi MWYN1 ymhellach ynghylch meini prawf y cynigion:

- Wedi dangos y byddai gweithio'r adnodd yn ffisegol anymarferol neu'n economaidd annerbyniol.
- Bod y datblygiad o natur dros dro ac yr adferir y safle i gyflwr na fyddai'n atal codi'r mwynau o fewn yr amserlen y byddent yn debygol o gael eu heisiau.
- Bod y datblygiad yn ddatblygiad gan ddeiliad tŷ neu'n fewnlenwi cyfyngedig o fewn ardal sydd eisoes yn adeiledig.

- Mae Polisi M1 yn y CDLl sydd wedi'i fabwysiadu gan Gasnewydd yn cynnig esiampl dda o feini prawf ar gyfer ystyried cynigion gwarchod.

**6. A ddylai'r adnabyddiaeth ofodol o'r 'Ardaloedd a Ffefrir' (polisi MWYN2 yn dilyn NF93) gael ei ddangos ar y Map Cynigion yn hytrach na'r Map Cyfyngiadau (gweler y mân newid i'r polisi hwnnw)?**

Dylai. Dylid dangos yr 'Ardaloedd a Ffefrir' ar y Map Cynigion yn hytrach nag ar y Map Cyfyngiadau. Mae hyn yn gyson â pharagraff 14.7.3 y PCC, sy'n datgan y dylid dangos safleoedd ar y map cynigion.

**7. A yw'r ymagwedd o amlygu Ardaloedd a Ffefrir yn darparu modd effeithiol o fynd i'r afael â'r diffyg a amlygwyd o ran darparu agregau yn ardal y Cynllun?**

Gweler yr ymateb i Gwestiwn 3.

**8. A yw polisi MWYN6 yn ddiangen o fanwl yng nghyddestun clustogfeydd, yn enwedig clustogfeydd tybiannol?**

Nid yw'n glir beth yw pwrpas cylchfa ragod dybiannol. Mae MTAN1 (paragraff 71) ond yn cyfeirio at gylchfeydd rhagod penodol o 100m a 200m ar gyfer tywod a gro a cherrig caled (mae MTAN2 yn cyfeirio hefyd at gylchfa o 500m ar gyfer Glo). Nid yw'r polisi cenedlaethol yn gofyn amdanyn nhw, ac ni ddylid eu dangos ar y map cynigion.

**9. A oes cyfiawnhad dros hepgor ardal diogelu mwynau i gynnwys maes glo Caernarfon?**

Yn unol â pharagraff 14.2.1 o'r PCC, rhaid gwarchod yr holl adnoddau mwynau. Dywed Papur Testun 11: Mwynau (paragraff 7.17) na ddylid cynnwys maes glo Caernarfon oherwydd y dynodiadau amgylcheddol a diwylliannol Rhyngwladol a Chenedlaethol a geir yno. Bernir felly yn yr achos hwn nad oes angen gwarchod yr adnodd glo yn y lleoliad hwn oherwydd y dynodiadau.

**10. A yw Strategaeth Gwastraff y Cynllun yn gyson â pholisi cenedlaethol, yn benodol - Polisi Cynllunio Cymru a'r diweddariad i Nodyn Canllaw Technegol 21: Gwastraff (2014)?**

Mae strategaeth wastraff y cynllun yn cydymffurfio'n gyffredinol â Pholisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 8).

Er mwyn ateb gofynion Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 21 (paragraff 4.2), dylid cyflwyno Asesiad Cynllunio Gwastraff gyda phob cais i ddarparu cyfleuster

gwastraff sy'n cael ei gategoreiddio'n gyfleuster gwaredu, adfer neu ailgylchu. Dylid adlewyrchu hyn ym Mholisïau GWA1, GWA2 a GWA3.

Mae TAN 21 (paragraff 3.24) yn nodi y dylai Awdurdodau Cynllunio gynnwys polisïau sy'n seiliedig ar feini prawf, neu os medrir, sy'n nodi safleoedd addas, i lywio lleoliad ystorfeydd neu 'chwareli trefol' ar gyfer adeiladu a dymchwel. Dylai'r Cyngor gadarnhau a yw'r safleoedd hynny wedi'u nodi ym Mholisi GWA1 ac os ydynt, dylai newid geiriad y polisi yn ôl yr angen. O'r safleoedd a restrwyd fel rhai addas ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff ym Mholisi GWA1, byddai'n ddefnyddiol pe bai'r Cyngor yn gallu esbonio a ydyn nhw'n safleoedd cyflogaeth gwarchodedig a dyranedig sydd wedi'u henwi ym Mholisi CYF1. Bydd llawer o'r safleoedd cyflogaeth cyffredinol a diwydiannol yn debygol o fod yn addas ar gyfer cyfleusterau gwastraff.

Dylid ymgorffori cyfleusterau a gofod digonol ar gyfer casglu, compostio ac ailgylchu gwastraff yn nyluniad unrhyw ddatblygiad a dylai datblygwyr roi sylw i ymdrechion lleihau gwastraff yn y camau dylunio, adeiladu a dymchwel. Er bod Polisi PS5 a Pholisi PCYFF1 yn mynd ran o'r ffordd i ateb gofynion TAN21 (paragraff 3.25), dydyn nhw ddim yn annog cyflenwi biniau digonol nac effeithiol ar gyfer ailgylchu nac yn dangos bod disgwyl i ddatblygwyr leihau gwastraff wrth ddylunio ac adeiladu adeiladau newydd. Dylid newid Polisi PS5 a Pholisi PCYFF yn unol â hynny.

**11. Ydy sail tystiolaeth y Cynllun yn cyflwyno gwybodaeth gyfoes a manwl o'r deilliannau gwastraff cyfredol a disgwyliedig er mwyn dangos fod Strategaeth Gwastraff y Cynllun yn ddigonol ac yn un y gellir ei wireddu?**

Mater i'r awdurdod yw hwn.

Dylai'r Cyngor baratoi adroddiad ar y diweddaraf am y cais cynllunio i ddarparu cyfleuster Gwres a Phŵer ym Mharc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy. Os caiff y cais cynllunio ei wrthod, neu os bydd y prosiect yn cael ei oedi, gallai hyn gael effaith ddifrifol ar gapasiti'r ddau Gyngor i fodloni eu rhwymedigaethau dan y Cynllun LAS"
(Papur Testun 12, paragraff 9.2).

**12. A yw polisi GWA3 yn ymateb priodol i storio a thrin gwastraff ymbelydrol?**

Mater i'r awdurdod yw hwn.

Mae gwaredu gwastraff ymbelydrol yn fater sydd wedi'i ddatganoli ac sy'n cael ei reoleiddio gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC). Ceir rheoliadau llym i'w reoli.

13. **A yw'r Cynllun yn darparu dulliau eglur a phriodol ar gyfer gweithredu a monitro'r Strategaethau Mwynau a Gwastraff?**

    Bydd Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda'r awdurdod ar gynhyrchu fframwaith monitro diwygiedig.

    Mae TAN 21 (paragraff 3.22) yn nodi y dylid monitro nifer y safleoedd sy'n cael eu defnyddio gan reolwyr gwastraff, hynny fel rhan o'r gwaith blynyddol o fonitro CDLliau. Bydd yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol am dueddiadau a gweithgareddau mewn ardal.